

#DYLECH WNEUD HYN GARTRE
#21
Yn cynnwys: Marfin a Milo
Yr hyn sydd ei angen arnoch: • Wasier • Dwy botel blastig fawr • Dŵr • Tâp sy'n dal dŵr • Lliw bwyd
Corwynt! Paid ag ailgylchu'r poteli, Milo. Rwy'n gallu creu corwynt mewn potel.
Llenwch ddwy ran o dair o un botel â dŵr lliw.
Trowch y botel arall ben i waered, rhowch wasier rhwng y ddwy botel a defnyddiwch y tâp i'w clymu nhw'n sownd wrth ei gilydd.
Trowch y poteli ben i waered a gadewch i'r dŵr lifo'n naturiol. Yna, troellwch y poteli'n egnïol.
Wrth i'r dŵr gael ei droelli, mae'n ffurfio fortecs tebyg i gorwynt ac yn llifo'n gynt o lawer i'r botel isaf.
Mae aer o'r botel isaf yn rhuthro i'r top trwy dwll yng nghanol y fortecs, wrth i'r dŵr sy'n llifo'n gyflym ddraenio'n sydyn ar yr ymylon.
Vic Le Billon